



YSGOL GYNRADD ABERAERON

Pennaeth / Head Teacher : Mrs Catrin Thomas

YSGOL GYNRADD ABERAERON,

Maes yr Heli,

Ceredigion, SA46 0BQ

Rhif Ffôn / Telephone No. : 01545 570313

Rhif FFacs / Fax No. 01545 570313

e-bost/e-mail: swyddfa@ysgolgyrraddaberaeron.ceredigion.sch.uk

safle we / web site: www.ysgolgyrraddaberaeron

30ain o Ebrill 2019

Annwyl Rieni / Gwarchodwyr,

Croeso nôl i bawb! Mae tymor yr Haf wedi cyrraedd! Hefyd, hoffem estyn croeso arbennig fel arfer i rieni newydd. Fel arfer, dyma ychydig o bwyntiau i'ch hatgoffa yn garedig o rai o drefniadau'r ysgol:

- Hoffwn groesawu Mrs Rhian Gwyon a Mr Robert Jones yn ôl i'r ysgol ar ôl gyfnod o salwch.
- **Parentmail** – Yn ein hymgais i wella cyfathrebu yn barhaol ac i symud tuag at fod yn Ysgol ddi-bapur, yr ydym yn bwriadu ymuno gyda 'Parentmail' sef system rhannu gwybodaeth a taliadau. Bydd hwn yn cymryd lle 'Schoop'. Dyma'r dull cyfathrebu a thaliadau y mae Ysgol Gyfun Aberaeron yn ei ddefnyddio. Bydd hwn yn caniatu i ni gysylltu gyda rhieni drwy neges destun, e-bost ac hefyd bydd rhieni yn medru gwneud taliadau ar-lein (rhywbeth y mae sawl rhiant wedi awgrymu). I'r perwyl hwn, gofynnwn i chi gadarnhau eich rhif ffôn symudol a e-bost gyda ni os gwelwch i fod yn dda.
- **Prydlondeb** – Mae'n HOLL bwysig eich bod yn cyrraedd yr Ysgol yn brydlon. Mae ein drysau ar agor o 8.45y.b. ymlaen ac yn cau yn brydlon am 9yb. Mae cyrraedd yr Ysgol yn rheolaidd ar ôl 9 y.b. yn gallu effeithio ar rediad gweithgredau ben bore eich plentyn ac yn cael effaith ar weddill y dosbarth.
- **Presenoldeb** – Mae canran ein presenoldeb yn wan o'i gymharu ag ysgolion tebyg. Mae'r awdurdod lleol yn monitro ein presenoldeb yn ofalus. Os ydy eich plentyn yn sâl a fyddoch mor garedig a ffonio'r ysgol mor gynnar â phosib er mwyn i'r athrawon dosbarth fedru gwneud eu cofrestru electronig. Amgaeaf wybodaeth am bresenoldeb. Mae disgyblion sydd a phresenoldeb o lai na 92% yn cael eu monitor gan yr awdurdod.
- **Parcio a gyrru yn ofalus** – Rydyn am eich hatgoffa bod Min y Môr wedi gofyn i ni i beidio a pharcio yn ei maes parcio os gwelwch yn dda. Cofiwch barcio a gyrru yn synhwyrol bob amser, mae iechyd a diogelwch ein disgyblion yn holl bwysig.
- Os oes gennych unrhyw bryderon mae ein hathrawon ar gael bob prynhawn Mercher rhwng 3.30 - 4yp ac mae croeso i chi wneud apwyntiad i'm gweld i ar unrhyw adeg.
- **Profion Cenedlaethol Darllen a Rhifedd** i flynyddoedd 2, 3, 4, 5 a 6 – rhwng y dyddiadau 7fed i 14eg o Fai bydd yr ysgol yn cynnal profion cenedlaethol llythrennedd a rhifedd. Ceir gwybodaeth am y profion ar ein safle we yn ogystal â safle we Llywodraeth Cymru.

Bydd amserlen lawn o weithgareddau a chlybiau'r tymor yn cael ei anfon atoch yn fuan. Gyda'ch cefnogaeth a'ch cydweithrediad sicrhewn bod ein disgyblion yn cael tymor llwyddiannus arall yn llawn o brofiadau dysgu cyfoethog a chyffrous. Cofiwch bod pob croeso i chi gysylltu yn syth os oes gennych unrhyw ymholiad pellach.

Diolch am eich cydweithrediad parhaus,
Catrin Thomas,
Pennaeth